***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 716 (Cy.75)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg (Sefydlu) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Mawrth 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 18(1) a (2) a pharagraffau 5 a 7 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**1**) ac adran 25 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodwyd o dan adran 18(3) o'r Ddeddf honno ac Atodlen 3 iddi, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg (Sefydlu) 2008 a daw i rym ar 12 Mawrth 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

mae i "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i "*operational date*" ym mharagraff 5(5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 12 Mawrth 2008;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gwasanaethau iechyd cymunedol" ("*community health services*") yw unrhyw wasanaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei ddarparu o dan adran 3(1) o'r Ddeddf neu Atodlen 1 iddi;

ystyr "yr ymddiriedolaeth" ("*the trust*") yw Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg a sefydlir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

### Sefydlu'r ymddiriedolaeth

**2.** Sefydlir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol o'r enw Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg neu the Abertawe Bro Morgannwg University National Health Service Trust.

(**1**) 2006 p.42
(**2**) 1993 p.38, Trosglwyddwyd swyddogaethau unrhyw Weinidog y Goron i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Natur a swyddogaethau'r ymddiriedolaeth**

**3.**—(1) Sefydlir yr ymddiriedolaeth at y dibenion a bennir yn adran 18(1) o'r Ddeddf.

(2) Swyddogaethau'r ymddiriedolaeth fydd—

(a) darparu nwyddau a gwasanaethau (gan gynnwys lle mewn ysbyty a gwasanaethau iechyd cymunedol) o—

(i) Ysbyty Cefn Coed, Ffordd Waunarlwydd, Y Cocyd, Abertawe, SA2 0GH,

(ii) Ysbyty Glanrhyd, Heol Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4LN

(iii) Ysbyty Treforys, Treforys, Abertawe, SA6 6NL;

(iv) Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, Ffordd Baglan, Port Talbot, SA12 7BX,

(v) Ysbyty Tywysoges Cymru, Ffordd Coity, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1RQ,

(vi) Ysbyty Singleton, Sgeti, Abertawe, SA2 8QA,

ac ysbytai a mangreoedd cysylltiedig; a

(b) darparu gwasanaethau caffael i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu mewn cysylltiad ag ef a chaffael nwyddau a gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

**Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth**

**4.**—(1) Bydd gan yr ymddiriedolaeth, yn ychwanegol at y cadeirydd, 7 cyfarwyddwr anweithredol a 5 cyfarwyddwr gweithredol.

(2) Gan fod rhaid ystyried fod i'r ymddiriedolaeth ymrwymiad arwyddocaol i addysgu o fewn ystyr paragraff 5(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf, mae un o'r cyfarwyddwyr anweithredol i'w benodi o Brifysgol Abertawe.

**Dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu'r ymddiriedolaeth**

**5.**—(1) Dyddiad gweithredol yr ymddiriedolaeth fydd 1 Ebrill 2008.

(2) Dyddiad cyfrifyddu'r ymddiriedolaeth fydd 31 Mawrth.

**Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredol**

**6.** Rhwng dyddiad ei sefydlu a'i dyddiad gweithredol, mae i'r ymddiriedolaeth y swyddogaethau canlynol—

(a) ymrwymo i gontractau'r GIG;

(b) ymrwymo i gontractau eraill gan gynnwys contractau cyflogaeth; ac

(c) gwneud y pethau eraill hynny sy'n rhesymol angenrheidiol i'w galluogi i ddechrau gweithredu'n foddhaol o'r dyddiad gweithredol ymlaen.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Mawrth 2008

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg, ymddiriedolaeth GIG y darperir ar ei chyfer yn adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hefyd yn darparu ar gyfer swyddogaethau'r ymddiriedolaeth (erthygl 3) a nifer y cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol (erthygl 4). Mae'n pennu dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu yr ymddiriedolaeth (erthygl 5).